OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2013 Rhif 414 (Cy.50)

# TRWYDDEDU (MOROL), CYMRU
# RHEOLI MOROL, CYMRU

## Gorchymyn Trwyddedu Morol (Dirprwyo Swyddogaethau) (Cymru) 2013

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *26 Chwefror 2013* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *26 Chwefror 2013* |
| *Yn dod i rym - -* | *1 Ebrill 2013* |

Mae Gweinidogion Cymru, fel yr awdurdod trwyddedu priodol o dan adran 113(4)(b) o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009(**1**), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 98(1) a 316(1)(b) o'r Ddeddf honno, a chan adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**2**).

Mae Gweinidogion Cymru wedi eu dynodi at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 mewn perthynas ag atal, lleihau a rheoli gwastraff(3).

Yn unol ag adran 98(**3**) o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009, mae Corff Adnoddau Naturiol Cymru yn caniatáu i'r Gorchymyn hwn gael ei wneud.

### Enwi a chychwyn

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Trwyddedu Morol (Dirprwyo Swyddogaethau) (Cymru) 2013.

(2) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 1 Ebrill 2013.

### Cymhwyso

**2.**—(1) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran unrhyw weithgaredd morol trwyddedadwy a Gweinidogion Cymru yw'r awdurdod trwyddedu priodol ar ei gyfer o dan adran 113(4)(b) o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009(**4**) ac mae cyfeiriadau yn y Gorchymyn hwn at "yr awdurdod trwyddedu" i'w darllen yn unol â hynny.

(**1**) 2009 p.23.
(**2**) 1972 p.68.
(**3**) Erthygl 3 o Orchymyn y Cymunedau Ewropeaidd (Dynodi) (Rhif 2) 2010 (O.S. 2010/1552).
(**4**) Yn rhinwedd adran 113(4)(b) o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009, Gweinidogion Cymru yw'r awdurdod trwyddedu priodol mewn cysylltiad ag unrhyw beth a wneir wrth gyflawni gweithgareddau morol trwyddedadwy o ran Cymru a rhanbarth

(2) Nid oes dim yn y Gorchymyn hwn yn gymwys o ran unrhyw swyddogaeth sydd wedi ei heithrio o fewn ystyr adran 98(6) o'r Ddeddf honno.

### Dynodi

**3.**—(1) Mae'r swyddogaethau y cyfeirir atynt ym mharagraff (2) wedi eu dynodi at ddibenion adran 98(1)(a) o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009.

(2) Y swyddogaethau yw unrhyw swyddogaeth yr awdurdod trwyddedu o dan—

(a) Rhan 4 o'r Ddeddf honno (adrannau 65 i 115 ac Atodlenni 7 i 9);

(b) Rheoliadau Trwyddedu Morol (Ffioedd am Geisiadau) (Cymru) 2011(**5**);

(c) Rheoliadau Trwyddedu Morol (Cofrestr o Wybodaeth Trwyddedu) (Cymru) 2011(**6**);

(d) Gorchymyn Trwyddedu Morol (Gweithgareddau Esempt) (Cymru) 2011(**7**), ac eithrio unrhyw swyddogaeth yr awdurdod trwyddedu o dan erthygl 5;

(e) Rheoliadau Trwyddedu Morol (Apelau yn Erbyn Penderfyniadau Trwyddedu) (Cymru) 2011(**8**), fel y'u diwygiwyd gan erthygl 6 o'r Gorchymyn hwn.

### Dirprwyo i Gorff Adnoddau Naturiol Cymru

**4.** Mae'r swyddogaethau sydd wedi eu dynodi gan erthygl 3, yn hytrach na bod yn arferadwy gan yr awdurdod trwyddedu, neu mewn perthynas ag ef, yn arferadwy gan Gorff Adnoddau Naturiol Cymru, neu mewn perthynas ag ef, sy'n gweithredu ar ran yr awdurdod trwyddedu.

### Diwygio Gorchymyn Trwyddedu Morol (Gweithgareddau Esempt) (Cymru) 2011

**5.**—(1) Mae erthygl 5 o Orchymyn Trwyddedu Morol (Gweithgareddau Esempt) (Cymru) 2011 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Ym mharagraffau (4) a (5), yn lle "awdurdod trwyddedu" rhodder "Corff Adnoddau Naturiol Cymru".

### Diwygiad canlyniadol i Reoliadau Trwyddedu Morol (Apelau yn Erbyn Penderfyniadau Trwyddedu ) (Cymru) 2011

**6.**—(1) Mae rheoliad 6 o Reoliadau Trwyddedu Morol (Apelau yn Erbyn Penderfyniadau Trwyddedu) (Cymru) 2011 wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Daw'r rheoliad hwnnw'n baragraff (1) yn y rheoliad hwnnw.

(3) Ar ôl paragraff (1) mewnosoder—

> "(2) Rhaid i berson sy'n anfon hysbysiad apêl at Weinidogion Cymru anfon, ar yr un adeg, gopi o'r hysbysiad hwnnw at yr Awdurdod Trwyddedu."

### Darpariaethau Trosiannol ac Arbedion

**7.**—(1) Yn yr erthygl hon—

(a) ystyr "y dyddiad effeithiol" yw 1 Ebrill 2013;

---

glannau Cymru ac eithrio gweithgareddau pan yr Ysgrifennydd Gwladol yw'r awdurdod trwyddedu priodol ar eu cyfer o dan adran 113(4)(a) a (5) o'r Ddeddf honno. *Gweler* adran 322(1) i gael y diffiniad o "Welsh inshore region".

(**5**) O.S. 2011/555 (Cy.78).

(**6**) O.S. 2011/557 (Cy.79).

(**7**) O.S. 2011/559 (Cy.81).

(**8**) O.S. 2011/925 (Cy.134). Mae rhai swyddogaethau penodol sy'n ymwneud ag apelau o dan reoliadau 4(1), 5(1), (4) a (5), 6, 8(8) a 18(4) yn swyddogaethau Gweinidogion Cymru, yn hytrach na'r awdurdod trwyddedu ac, yn unol â hynny, maent y tu allan i gwmpas y dynodiad o dan y Gorchymyn hwn.

(b) ystyr "swyddogaeth berthnasol" yw unrhyw swyddogaeth sydd, yn rhinwedd unrhyw ddarpariaeth a wneir gan y Gorchymyn hwn, yn dod yn arferadwy ar y dyddiad effeithiol gan Gorff Adnoddau Naturiol Cymru.

(2) Caniateir i unrhyw beth (gan gynnwys, heb gyfyngiad, achosion cyfreithiol) sydd, ar y dyddiad effeithiol, yn y broses o gael ei wneud gan yr awdurdod trwyddedu, neu mewn perthynas ag ef, wrth arfer swyddogaeth berthnasol, neu mewn cysylltiad â hi, gael ei barhau gan Gorff Adnoddau Naturiol Cymru, neu mewn perthynas ag ef, yn gweithredu ar ran yr awdurdod trwyddedu.

(3) Mae unrhyw beth a wneir gan yr awdurdod trwyddedu, neu mewn perthynas ag ef, cyn y dyddiad effeithiol wrth arfer swyddogaeth berthnasol, neu mewn cysylltiad â hi fel arall, i gael effaith, i'r graddau y bo angen hynny er mwyn parhau ei effaith ar ac ar ôl y dyddiad hwnnw, fel petai wedi ei wneud gan Gorff Adnoddau Naturiol Cymru, neu mewn perthynas ag ef, yn gweithredu ar ran yr awdurdod trwyddedu.

*John Griffiths*
Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy, un o Weinidogion Cymru

26 Chwefror 2013

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn dirprwyo arfer swyddogaethau penodol Gweinidogion Cymru fel awdurdod trwyddedu o dan Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 ("Deddf 2009") i Gorff Adnoddau Naturiol Cymru.

Nid yw'r Gorchymyn hwn yn gymwys i swyddogaethau'r awdurdod trwyddedu (yn bennaf y rhai sy'n ymwneud â gwneud is-ddeddfwriaeth) sy'n swyddogaethau sydd wedi eu heithrio ac na ellir eu dirprwyo yn rhinwedd adran 98(5)(a) o Ddeddf 2009 (erthygl 2(2)).

Mae erthygl 3 yn dynodi swyddogaethau Gweinidogion Cymru fel awdurdod trwyddedu o dan Ran 4 (trwyddedu morol) o Ddeddf 2009 (gan gynnwys swyddogaethau o dan is-ddeddfwriaeth a wneir o dan y Rhan honno).

Mae erthygl 4 yn darparu bod y swyddogaethau dynodedig yn arferadwy gan Gorff Adnoddau Naturiol Cymru, neu mewn perthynas ag ef, yn gweithredu ar ran yr awdurdod trwyddedu (yn hytrach na bod yn arferadwy gan yr awdurdod hwnnw, neu mewn perthynas ag ef). Mae gan yr awdurdod trwyddedu'r pwer i roi cyfarwyddiadau i Gorff Adnoddau Naturiol Cymru mewn cysylltiad â chyflawni'r swyddogaethau dirprwyedig (*gweler* adran 100 o Ddeddf 2009, y mae ei phwer yn swyddogaeth sydd wedi ei heithrio).

Mae erthygl 5 yn diwygio erthygl 5 o Orchymyn Trwyddedu Morol (Gweithgareddau Esempt) (Cymru) 2011 ("Gorchymyn 2011"). Mae erthygl 5 o Orchymyn 2011 yn gwneud darpariaeth ynghylch pryd nad oes angen trwydded forol ar gyfer gweithgareddau sy'n ymwneud â gwaredu neu adfer gwastraff (ac mae'n gweithredu, yn rhannol, Gyfarwyddeb 2008/08/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor ar wastraff (OJ Rhif L 312, 22.11.2008, t.3)). Mae'r cyfeiriadau at yr awdurdod trwyddedu yn erthygl 5(4) a (5) wedi eu hamnewid gan gyfeiriadau at Gorff Adnoddau Naturiol Cymru.

Mae erthygl 6 yn gwneud darpariaeth o ganlyniad i ddirprwyo swyddogaethau Gweinidogion Cymru fel awdurdod trwyddedu o dan Reoliadau Trwyddedu Morol (Apelau yn Erbyn Penderfyniadau Trwyddedu) (Cymru) 2011.

Mae erthygl 7 yn cynnwys darpariaethau trosiannol ac arbedion i sicrhau parhad rhwng pethau a wneir gan Weinidogion Cymru, neu mewn perthynas â hwy, fel awdurdod trwyddedu cyn 1 Ebrill 2013 a phan ymgymera Corff Adnoddau Naturiol Cymru ag arfer swyddogaethau penodol yr awdurdod trwyddedu yn unol â'r Gorchymyn hwn.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar wneud Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Gorchymyn hwn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol gwneud asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r buddiannau sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r offeryn hwn.